

Hydref - Tachwedd 2018 rhifyn 116



lingo

newydd

Dw i'n
hoffi ...
meddai
Connie Fisher



Beth ydy Cragen?

Cogydd
o Gatalwnia



Helo, bawb!

Cynnwys

Hydref – Tachwedd 2018

- 2 Helo, bawb
- 3-4 Eich tudalen chi – llythyrau
- 5 O ddi-ddordeb – yr artist adar, Judith Samuel
- 6-7 'Dw i'n hoffi...' – Connie Fisher
- 8-9 Cyfoes – Problem am plastig
- 10-11 Blwyddyn y Môr – Neges mewn Cragen
- 12 Bwyd – O Gatalwnia i Gonwy – patisserie Isaac Simeon
- 13 Y sêr – Chris Needs
- 14 Byw dramor – Gwenfair Vaughan yn Efrog Newydd
- 15 Natur – y fasarnen fach – Bethan Wyn Jones
- 16-17 Ar y boc – Y Salon
- 18 Dewis Debora
- 19 Croesair ac idiom Mumph



Geiriau

llythyr, -on – *letter, -s*
 o ddi-ddordeb – *of interest*
 cyfoes – *contemporary*
 cragen – *shell*
 perygl – *danger*
 rysâit – *recipe*
 seren, sêr – *star, -s*
 tramor – *abroad*
 Efrog Newydd – *New York*
 y fasarnen fach – *field maple*
 croesair – *crossword*



Dych chi wedi bod i lan y môr yn ddiweddar?

Dych chi wedi gweld rhywbeth mawr yn nofio yn y môr?

Dych chi wedi gweld Cragen efallai.

Pwy ... neu beth ... ydy Cragen? Anghenfil môr – anghenfil plastig – ac mae'n mynd ar daith o gwmpas arfordir Cymru. Mae gan Cragen neges bwysig am wastraff plastig. Mae mwy am Cragen ar dudalen 10 a 11.

Dych chi wedi gweld pethau plastig eraill yn y môr ac ar y traeth efallai. Mae plastig yn y môr yn creu problemau mawr yng Nghymru a dros y byd. Mae Alun Moseley yn syrffwr ac mae e'n byw yng Nghaerdydd. Mae e'n siarad am y problemau ar dudalen 8 a 9. Mae Alun yn dangos sut i helpu. Tybed dych chi wedi helpu i glirio sbwriel o'r traeth? Os dych chi, beth am ysgrifennu at **lingo newydd** i ddweud y stori?

Mae'r artist, Judith Samuel, yn mwynhau gwyllo adar y môr a'u paentio nhw. Mae hi'n arddangos ei gwaith yn Oriol Môn, yn Llangefni, ar hyn o bryd. Mae hi'n siarad â ni ar dudalen 5.

Dych chi'n cofio gweld Connie Fisher yn ennill y sioe dalent, *How Do You Solve a Problem Like Maria?* ar y BBC? Ar dudalen 6 a 7, mae Connie Fisher yn dweud wrth **lingo newydd** beth mae hi'n hoffi. Un o'r pethau mae hi'n hoffi gwneud ydy rhedeg ger y traeth yn y Barri, lle mae hi'n byw.

Mae traethau Cymru yn hyfryd – hyd yn oed pan mae'r tywydd yn oer!

Geiriau

yn ddiweddar – *recently*
 anghenfil – *monster*
 arfordir – *coast*
 gwastraff – *waste*
 arddangos – *(to) exhibit*
 ar hyn o bryd – *at the moment*
 hyd yn oed – *even*

Lliwiau newydd!

Lliwiau lingo newydd Mae cod lliw i'ch helpu chi i ddarllen **lingo newydd**.

- 1** Darllenwch y darnau melyn os dych chi'n dechrau dysgu.
- 2** Darllenwch y darnau gwyrdd os dych chi'n fwy profiadol.
- 3** Darllenwch y cyfan os dych chi'n brofiadol iawn.

■ Dyma liw geiriau'r De. ■ Dyma liw geiriau'r Gogledd. ■ Mae'r lliw yma i bawb.

Cyhoeddiad gan gwmni GOLWG

lingo newydd, d/o Golwg, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan,

Ceredigion. SA48 7LX ☎ 01570 423529 ☎ 01570 423538

✉ e-bost: lingonewydd@golwg.com

Cyfranwyr: Bethan Lloyd, Dylan Iorwerth, Chris Needs, Dyfan Williams, Mumph, Bethan Wyn Jones

Llun clawr: Connie Fisher

EICH TUDALEN CHI



Annwyl **lingo** newydd ... Mae llawer o ddarllenwyr yn ysgrifennu llythyrau at **lingo** newydd. Diolch yn fawr iawn!

Y tro yma, mae llythyrau am bethau dych chi'n hoffi – o greision i ddinas Nice.

Geiriau

llythyr,-au – *letter,-s*
y tro yma – *this time*
peth,-au – *thing,-s*

Powys a'r môr

Mewn cornel o ogledd-orllewin Powys, mae pentre o'r enw Derwen-las, ger Machynlleth. Mae gan Derwen-las hanes diddorol.

Porthladd oedd Derwen-las. Yn ystod y18fed a'r 19eg ganrif, roedd cychod yn hwylio i fyny Afon Dyfi ac wedyn yn dychwelyd efo llechi a phlwm. Mae'r llanw'n cyrraedd Derwen-las ac roedd y cychod yn defnyddio'r llanw.

Cafodd rheilffordd ei hadeiladu o Gorris i Dderwen-las. Roedd y rheilffordd yn cario llechi o'r chwareli yn ardal Corris a dyffryn Dulas drwy Fachynlleth i Dderwen-las.

Mae Prosiect Gweilch Dyfi yn yr ardal ac yma mae afon Dyfi yn nodi'r ffin rhwng Powys a Gwynedd.



Gillian Roberts
Llanidloes



Geiriau

porthladd – <i>port</i>	chwarel,-i – <i>quarry,</i>
dychwelyd – <i>(to)</i>	<i>quarries</i>
return	gwalth, gweilch –
llechen, llechi –	<i>osprey,-s</i>
slate,-s	nodi – <i>(to) denote</i>
plwm – <i>lead</i>	ffin – <i>boundary</i>
llanw – <i>tide</i>	



Un o fy hoff deithiau cerdded

Helo bawb. Carole dw i.

Dw i'n byw yng Nghaernarfon, mewn tŷ wrth ochr Afon Seiont, efo'r gwŷr a'r mab.

Dw i'n licio anifeiliaid yn fawr ac mae gynnwng ni ddau gi ac iâr.

Ro'n i'n nyrs filfeddygol ers talwm ac wedyn ro'n i'n diwtor trin cotiau cŵn.

Rŵan, dw i'n gweithio'n rhan-amser. Mae gen i dri busnes trin cotiau cŵn yn Lloegr. Dw i'n rheoli'r busnesau o fy nghartref. Dw i'n dysgu Cymraeg ers mis Tachwedd 2016, pan symudais i i Gaernarfon.

Yn fy amser sbâr, dw i'n licio cerdded yn y mynyddoedd efo'r cŵn a dw i'n licio ffotograffiaeth a byd natur hefyd. Yn ogystal â cherdded yn y mynyddoedd, un o fy hoff deithiau cerdded ydy ar hyd yr aber yng Nghaernarfon i'r Foryd yn gynnar yn y bore. Mae'n daith gerdded arbennig iawn achos mae'r Foryd yn warchodfa natur leol.

Dw i wrth fy modd efo'r golygfeydd, y synau a'r arogleuon yn ystod y daith gerdded yma. Dw i'n medru gweld y mynyddoedd, o Waunfawr yn Eryri yr holl ffordd i'r Eifl ar Benrhyn Llŷn, ac ar draws Afon Menai i draeth Niwbwrch, yn Ynys Môn. Pan dw i'n cerdded, dw i'n clywed y môr, yr adar a fy nhraed – dim byd arall. Ond arogl y môr ydy'r gorau – mor ffres a hallt!

Fel arfer, pan dw i'n cerdded ar hyd yr aber, dw i'n gweld crehyrod glas, gwylanod,

môr-wenoliaid, piod y môr a llawer o adar eraill. Yn aml, dw i ddim yn gweld pobl eraill o gwbl.

Carole Gowers, Caernarfon



Geiriau

nyrs filfeddygol – *veterinary nurse*
ers talwm – *a long time ago*
trin cotiau cŵn – *dog grooming*
rheoli – *(to) manage*
yn ogystal â – *as well as, in addition to*
gwarchodfa natur – *nature reserve*
y golygfeydd – *the scenery*
sŵn, synau – *sound,-s*
medru = gallu – *(to) be able to, can*
halt – *salty*
creŷr, crehyrod glas – *heron,-s*
gwylan,-od – *seagull,-s*
môr-wennol, môr-wenoliaid – *tern,-s*
pioden y môr, piod y môr – *oyster catcher,-s*

Gwyliau yn yr Eidal

Yr haf hwn, cawson ni ein gwyliau haf teuluol ni yn Imperia, dinas Eidalaidd tua 125 km i'r gorllewin o Genoa.


Un diwrnod, aethon ni i ddinas Nice, yn ne Ffrainc, tua 80 km ymhellach i'r gorllewin.

Wnes i deithio yno ar fy meic rasio, tra oedd y teulu yn gyrru yn y car. Wnaethon ni gyrraedd yno tua naw o'r gloch y bore. Y peth cynta wnaethon ni oedd mwynhau brecwast Ffrengig o goffi a croissants!

Nice ydy pumed ddinas fwy Ffrainc ac mae'n brifddinas ardal yr Alpes-Maritimes. Cafodd hi ei sefydlu'n wreiddiol gan y Groegiaid. Wedyn, daeth hi'n un o hoff lefydd yr elit ac artistiaid Ewropeaidd y 19eg ganrif, fel Henri Matisse.

Mae hi'n hen dref hyfryd gyda strydoedd cul. Y prif lwybr ydy'r "Promenade des Anglais" (Rhodfa'r Saeson!)

Ar y ffordd adre, wnaethon ni fynd i Monte Carlo a chael hwyl yn edrych ar y cychod mawr a'r ceir drud.

 **Ed Moncrief, Marchnad Harborough, Caerlŷr, Lloegr**

Geiriau

sefydlu – (to) establish

Dysgu Cymraeg trwy emynau

Dw i wrth fy modd efo emynau Cymraeg. Mae hynny'n un o'r rhesymau dw i'n dysgu Cymraeg. Bydda i'n gwyllo **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** bob nos Sul ar S4C. Yr emyn sy wedi fy ysbrydoli i yn fwy nag unrhyw un arall ydy 'Dwy law yn erfyn' gan T. Rowland Hughes.

Mae'r emyn yn cyfeirio at ddarlun o ddwy law gyda'i gilydd mewn gweddi.

Meddyliais i 'Dwylo pwy oedd y rhain?' Yna, mi wnes i ddarganfod bod artist o'r Almaen, Albrecht Dürer, wedi peintio'r darlun hwn, a'r dwylo ydy dwylo ei frawd. Pan oedd Albrecht yn y coleg roedd rhaid i'w frawd weithio'n galed. Ar ôl i Albrecht gwblhau ei astudiaethau peintiodd o'r darlun hwn. Mae'r stori'n drist iawn.

Trwy'r emyn hwn dw i wedi dysgu llawer o eiriau diddorol – a mwynhau ei thôn wych hefyd.

 **Sara Jones**



Geiriau

emyn,-au – hymn,-s
sy wedi fy ysbrydoli i – that has inspired me

cyfeirio at – (to) refer to
gweddi – prayer
darganfod – (to) discover

cwblhau – (to) complete, finish
astudiaeth,-au – study, studies
tôn – tune

Creision Cymru

Dw i wedi sylwi pa mor boblogaidd ydy erthyglau am fwyd (er enghraifft, bwyto Crwst gyda'r toesenni, Bois y Pizza, a.y.b.) yn eich cylchgrawn chi, felly mae gen i stori ddoniol i chi.

Dw i'n dod o dde Llundain, ond mae fy mam yn dod o Gymru yn wreiddiol (o Lanfair-ym-muallt). Weithiau, mae hi'n teimlo tipyn o hiraeth am ei gwlad hi – felly, penderfynodd fy nhad wneud rhywbeth i'w helpu hi i gofio ei Chymreictod.

Un diwrnod, clywais i gnoc ar y drws. Codais i i weld pwy oedd yno, a phan agorais i'r drws, gwelais i ddau focs enfawr. Am syndod! Beth oedd tu mewn?

Wel, ar ochr y bocsys, roedd y geiriau: 'JONES O GYMRU – CREISION CYMREIG'. Roedd 24 pecyn yn y boc. Pan gyrhaeddodd fy nhad y drws, wnes i ddweud wrtho fe: 'Jiw Jiw, Dad! 48 pecyn anferth o greision?! Ydyn ni'n agor tafarn neu

be?!' Dechreuodd e chwertthin.

Yn ffodus, roedd fy mam wrth ei bodd gyda nhw: mae hi'n caru creision! Yn anfodus, bydd angen i ni ohirio ein diets ni!

 Hwyl fawr, **Sam, Llundain**



Geiriau

sylwi – (to) notice
pa mor boblogaidd – how popular
toesen,-ni – doughnut,-s
hiraeth – homesickness, longing
Cymreictod – Welshness
Am syndod! – What a surprise!
neu be? – or what?
gohirio – (to) postpone

Dyn ni'n hoffi ...

Dyma lythyrau gan rai o ddarllenwyr **lingo newydd**.

Maen nhw'n hoffi llawer o bethau.

Mae Gillian Roberts yn hoffi pentref Derwen-las, ger Machynlleth. Mae Derwen-las ar lan afon Dyfi.

Mae Carole Gowers yn hoffi mynd am dro. Mae hi'n byw yng Nghaernarfon. Mae hi'n hoffi mynd am dro ar lan afon Menai.

Mae Ed Moncrief yn hoffi mynd ar wyliau. Mae e'n hoffi dinas Nice, yn Ffrainc.

Beth mae Sara Jones yn hoffi? Mae hi'n hoffi emynau. Mae'r emynau'n helpu Sara i ddysgu Cymraeg.

A beth mae mam Sam Jones yn hoffi? Creision o Gymru. Mae mam Sam yn byw yn Llundain. Mae'r creision yn helpu gyda'r hiraeth am Gymru!

Geiriau

rhai – some
darllenwr, darllenwyr – reader,-s
llawer – a lot
peth,-au – thing,-s

ar lan afon – on the bank of (the) river
emyn,-au – hymn,-s
hiraeth – homesickness, longing

Mae Judith Samuel yn artist ac mae hi'n hoffi paentio adar y môr ...

Adar o'r unlliw

Dach chi'n hoffi adar?

Dach chi'n hoffi gwyllo adar?

Mae Judith Samuel yn artist.

Mae hi'n hoffi gwyllo adar. Mae hi'n paentio adar hefyd.

Mae Judith Samuel yn byw yn y Rhyl, yng ngogledd Cymru, ac mae hi'n gweithio mewn stiwdio yn Llandudno.

Mae hi'n teithio i lawer o wledydd – i Senegal, yr Arctig ac Ynysoedd y Falkland – i wyllo adar ac i baentio adar.



Geiriau

adar o'r unlliw – *birds of a feather (lit. birds of one colour)*

gwyllo – *(to) watch*

gogledd – *north*

teithio – *(to) travel*

gwlad, gwledydd – *country, countries*

ynys,-oedd – *island,-s*

Geiriau

môr-wennol, môr-wenoliaid – *tern,-s*
wastad – *always*

nythfa, nythfeydd – *colony, colonies*

prin – *rare*

treulio – *(to) spend (time)*

cyhoeddi – *(to) publish*

paradwys – *paradise*

Ynys Lawd – *South Stack*

braslun,-iau – *sketch,-es*

gwylan,-od – *seagull,-s*

dof – *tame*

arddangosfa – *exhibition*

arbrofi – *(to) experiment*

hynafol – *ancient*

melynwy – *egg yolk*



Môr-wenoliaid bach

“Dw i wastad wedi mwynhau gwyllo adar. Tua chwe blynedd yn ôl, wnes i brosiect am nythfa o fôr-wenoliaid bach ger Prestatyn. Y fôr-wennol fach ydy un o fy hoff adar i. Mae hi'n brin iawn. Does dim llawer o nythfeydd erbyn hyn.”

Ar ôl treulio tair blynedd yn paentio a thynnu lluniau o'r môr-wenoliaid bach yng Nghymru, aeth Judith i Senegal, yng ngorllewin

Affrica, i wyllo'r adar.

Dyna le mae'r môr-wenoliaid yn mynd dros y gaeaf.

Mae hi wedi cyhoeddi llyfr am y môr-wenoliaid bach – **Little Terns and Sea Holly**.

“Paradwys”

“Dw i'n caru adar y môr.

Dw i'n mynd i Ynys Lawd yn Ynys Môn yn aml i wneud brasluniau. Ddwy flynedd yn ôl, wnes i fynd i'r Arctig i wyllo'r adar ac wedyn, ym mis Tachwedd y llynedd, wnes i fynd i Ynysoedd y Falkland.

“Mae'n baradwys os dach chi'n hoffi gwyllo adar. Wnes i weld albatrosiaid, gwylanod a phengwinaid. Mae'r adar yn ddof iawn yno felly dach chi'n gallu mynd yn agos iawn atyn nhw.”

Arddangosfa

Mae Judith Samuel yn paentio gydag olew ond mae hi'n arbrofi efo tempera wy hefyd.

“Mae'n ffordd hynafol o baentio. Dach chi'n cymysgu melynwy gyda'r paent. Mae'n creu lliwiau hyfryd.”


Mae arddangosfa o waith Judith yn Oriel Ynys Môn. Mae'n dangos lluniau o'r môr-wenoliaid yng ngogledd Cymru ac Ynysoedd y Falkland.



Mae Judith Samuel yn arddangos ei gwaith yn Oriel Ynys Môn, Llangefni ar hyn o bryd. Mae'r arddangosfa'n gorffen ar 22 Hydref.

Geiriau

arddangos – *(to) exhibit*
ar hyn o bryd – *at present, now*
arddangosfa – *exhibition*




Mae **lingo newydd** yn gofyn i bobl beth maen nhw'n hoffi. Y tro yma, mae Connie Fisher yn ateb ein cwestiynau ni. Mae hi'n canu ac yn cyflwyno ar y teledu. Mae hi'n gweithio i gwmni teledu Wildflame Productions yng Nghaerdydd. Mae hi'n byw yn y Barri.

Connie Fisher Dwi'n hoffi...

Connie, beth ydy...


eich hoff ffilm

Notting Hill – mae jest yn un o'r ffilmiau diamser yna. Bob Nadolig mae'r ffilm yma ar y sgrin. A bod yn onest, dw i'n hoffi popeth gan Richard Curtis (y cynhyrchydd, a chyfarwyddwr ffilmiau fel *Love Actually* a *Four Weddings and a Funeral*).



eich hoff lyfr

Dw i'n ffan mawr o lyfrau hunan-helpu – dw i'n hoffi gwella fy hun. Dw i'n mwynhau llyfrau fel *The Power of Now*, a *The Secret*. Maen nhw'n eich atgoffa chi i fod yn bositif ac yn optimistig a bod yn agored i bethau newydd. Dw i'n mwynhau Harry Potter hefyd – dw i'n mwynhau ychydig o nonsens lle dych chi'n gallu dianc!



eich hoff fwyd

Dw i'n caru bwyd. Dw i'n hoffi bwyd o'r Eidal, Sbaen a Libanus – a dw i'n caru caws, yn enwedig halloumi. Dw i'n hoffi gwin hefyd. Dw i'n hoffi unrhyw fath o fwyd.

eich hoff siop

Dw i'n hoffi siopa yn fawr iawn! Dw i'n hoffi boutiques bach unigryw. Mae Bryls Boutique yn y Barri yn ffantastig. Dw i'n hoffi Karen Millen, Oasis a Warehouse hefyd. Dw i ddim yn hoffi prynu dillad ar-lein a dw i ddim yn hoffi siopau mawr. Mae hynny'n arbed lot o amser, mae'n siŵr, ond dw i ddim yn mwynhau'r profiad.

eich hoff ddillad

Mae lot o ddillad 'da fi. Mae'r ystafell sbâr yn y tŷ yn llawn dillad. Dw i ddim yn hoffi taflu dim byd. Dw i'n hoffi prynu pethau dw i'n gallu gwisgo eto.

Roedd rhaid i fi brynu ffrog sbesial ar gyfer cyngerdd mawr yn Broadway yn Efrog Newydd eleni. Roedd Julie Andrews, Sam Smith, Roger Daltrey a Keith Urban yn canu yno. Fi oedd yn cyflwyno'r cyngerdd ac

roedd rhaid i fi gyfsweld Julie Andrews. Ro'n i mewn tipyn o banig.

Ro'n i'n poeni am beth i wisgo. Ond wnes i ffeindio siop yng Nghasnewydd sy'n gwerthu ffrogiau *prom*. Wnes i brynu ffrog anhygoel gan Giovanni. Roedd hi'n las, i lawr at y llawr ac oddi ar yr ysgwydd.


Dw i'n hoffi popeth sy'n llachar. Os dych chi'n gwisgo rhywbeth sbesial mae'n gallu gwneud i chi deimlo'n ffantastig.

eich hoff ffordd o ymlacio

Dw i'n defnyddio ap ar fy ffon o'r enw Headspace – ap myfyrio ydy e. Dw i'n hoffi gwrando ar yr ap gyda'r nos ac mae e wastad yn fy helpu i i gysgu.

Dw i'n hoffi rhedeg hefyd a dw i wedi gwneud dau hanner marathon. Pan dw i'n rhedeg, dw i'n hoffi gwrando ar fiwsig.

Rai blynyddoedd yn ôl wnes i gymryd rhan yn *Total Wipeout*, rhaglen lle mae tua 20 o gystadleuwyr yn cymryd rhan mewn gwahanol sialensiau corfforol – yn y dŵr neu mewn mwd. Roedd hwn yn brofiad poenus iawn! Ro'n i'n mynd i'r gampfa ac yn rhedeg lot ar y pryd ond roedd hwn bron â fy lladd i!



Geiriau

y tro yma – *this time*
 cyflwyno – *(to) present*
 cwmni – *company*
 diamser – *timeless*
 cynhyrchydd – *producer*
 cyfarwyddwr – *director*
 gwella – *(to) improve*
 atgoffa – *(to) remind*
 dianc – *(to) escape*
 Libanus – *Lebanon*
 unigryw – *unique*
 arbed – *(to) save*
 cyfsweld – *(to) interview*
 anhygoel – *incredible*
 oddi ar yr ysgwydd – *off the shoulder*
 llachar – *bright*
 myfyrio – *meditation, (to) meditate*
 roedd hwn bron â fy lladd i – *this almost killed me*



Dyma Connie Fisher

Mae Connie Fisher yn canu ac yn cyflwyno ar y teledu.

Mae hi'n gweithio i gwmni teledu Wildflame Productions yng Nghaerdydd. Cynhyrchydd ydy hi.

Mae hi'n dod o Aberdaugleddau yn Sir Benfro yn wreiddiol ond mae hi'n byw yn y Barri nawr.

Dych chi'n cofio Connie yn canu ar y sioe dalent ar y BBC, *How Do You Solve a Problem Like Maria?* Enillodd hi.

Nawr, mae hi'n beirniadu ar sioe dalent ar y teledu. Mae hi'n helpu i ddewis person ifanc o Gymru i ganu yn y *Junior Eurovision Song Contest*.

Mae hi'n hoffi dillad – mae'r ystafell sbâr yn y tŷ yn llawn dillad.

Mae hi'n hoffi rhedeg. Mae hi'n rhedeg ar lan y môr yn y Barri.

Ei hoff le ydy Llandudno. Mae rownd derfynol Cymru o'r *Junior Eurovision Song Contest* yn Llandudno ar 9 Hydref.



Lluniau: SAC

Geiriau

cyflwyno – (to) present	beirniadu – (to) adjudicate
cwmni – company	cofio – (to) remember
cynhyrchydd – producer	dewis – (to) choose
Aberdaugleddau – Milford Haven	yn llawn dillad – full of clothes
enillodd hi – she won	ei hoff le – her favourite place

Connie, beth ydy...

eich hoff olygfa

Dw i'n byw yn y Barri ac mae gen i'r olygfa orau yn y byd. Mae'r tŷ yn edrych dros y Knapp (ar lan y môr). Dw i'n mynd i redeg ar draeth o'r enw Jackson's Bay. Mae'r olygfa mor hyfryd, dw i wastad yn gorfod stopio er mwyn edrych allan dros y môr. Dydy'r olygfa byth yr un fath.

Gan fy mod i'n ferch o Sir Benfro, dw i wedi arfer bod yn agos at y môr. Wnes i dyfu i fyny ar fynydd ac ro'n i'n gallu dringo'r creigiau a chael olygfa 360°.

Geiriau

yr un fath – the same
ar daith – on tour
Pen y Gogarth – the Great Orme

eich hoff wyliau

Dw i'n hoffi Mallorca, yn enwedig y mynyddoedd, achos mae'r olygfa'n ddramatig iawn, ond fy hoff le i ydy Llandudno. Ro'n i ar daith yno rai blynyddoedd yn ôl. Roedd y dillad ar gyfer y sioe yn dechrau mynd yn dynn, felly wnes i ddechrau rhedeg. Ro'n i'n byw ar Ben y Gogarth ac felly wnes i ddechrau cerdded o'i gwmpas, ac yna dechreuais i redeg o'i gwmpas. Ro'n i hefyd yn rhedeg ar hyd y promenâd a wnes i syrthio mewn cariad â'r lle.



Mae plastig yn broblem ar y traeth ac yn y môr ond mae problemau eraill hefyd. Beth ydy'r ateb?

Blwyddyn y Môr – problemau plastig

Dych chi'n hoffi nofio yn y môr?
Dych chi'n hoffi cerdded ar y traeth?
Dych chi'n gweld poteli plastig a sbwriel yn y môr ac ar y traeth?

Mae'n broblem i'r adar. Mae'n broblem i greaduriaid y môr a'r pysgod.

Mae'n broblem i bobl hefyd. Mae nofwyr a syrffwyr yn cael problemau achos plastig.

Ond mae problemau eraill hefyd – mae mathau eraill o lygredd yn y môr hefyd, e.e. carthion.

Geiriau

traeth – beach	swimmer,-s
eraill – other (pl.)	syrffiwyr, syrffwyr –
ateb – answer	surfer,-s
sbwriel – rubbish	mathau eraill – other
creadur,-iaid –	kinds
creature,-s	llygredd – pollution
nofiwr, nofwyr –	carthion – sewage



Stori'r syrffiwyr

Mae Alun Moseley yn byw yng Nghaerdydd ac mae e'n syrffiwyr. Mae e'n syrffio ers tua 20 o flynyddoedd.

Mae e'n ymgyrchu gyda Surfers Against Sewage (SAS). Ers 1990, maen nhw'n ymgyrchu dros foroedd glanach ac maen nhw isie amddiffyn bywyd gwyllt.

Carthion

Carthion ydy un o'r problemau.

"Dw i wedi bod yn syrffio ers blynyddoedd," meddai Alun. "Dw i'n tueddu i fynd i Borthcawl. Dw i'n gweld lot mwy o lygredd yn y môr yn ddiweddar.

"Mae'r math o lygredd wedi newid hefyd – mae lot mwy o syrffwyr yn mynd yn sâl. Tua phum mlynedd yn ôl, roedd pethau mor ddrwg, roedden ni'n mynd yn sâl yn aml. Roedd pethau fel gastroenteritis yn gyffredin iawn," meddai Alun Moseley.

"Dyna pam wnes i ymuno gyda Surfers Against Sewage. Roedden nhw wedi cael digon

ar fynd yn sâl pan oedden nhw'n gwneud rhywbeth roedden nhw'n caru gwneud."

Plastig

Problem arall ydy plastig ac mae'n broblem ar draws y byd.

"Dw i wedi bod i lefydd prydfarth iawn i syrffio – Bali, Costa Rica, Brasil – ond ble bynnag dych chi'n mynd, mae llygredd ar y traethau, yn enwedig plastig.

Gwastraff diwydiannol

Mae problem arall yn Ne Cymru hefyd.

"Yma, yn Ne Cymru, dyn ni'n tueddu i weld mwy o wastraff diwydiannol," meddai Alun.

Mae Surfers Against Sewage yn anhapus i weld cymaint o sbwriel ar hyd yr arfordir ac mewn llefydd hyfryd hefyd.

Geiriau

ymgyrchu – (to) campaign	llygredd – pollution
amddiffyn – (to) protect	cyffredin – common
tueddu i – (to) tend to	gwastraff diwydiannol – industrial waste
	cymaint – so much



Peli bach plastig

Mae peli bach plastig (micro-plastig) yn achosi problem fawr, meddai Alun Moseley.

Maen nhw mor fach, dych chi ddim yn gallu eu gweld nhw, ond mae adar, creaduriaid y môr a physgod yn eu bwyta nhw.

Wedyn, mae pobl yn bwyta'r pysgod ac mae hyn yn achosi pryder mawr, meddai Alun Moseley.

"Mae'r math yma o blastig yn gallu cael effaith arnon ni mewn lot o wahanol ffyrdd. Mae'n gallu cael effaith ar ein system atgennedlu, ac mae rhai'n garsinogenig. Mae'n codi ofn.

"Dyn ni'n byw mewn cymdeithas lle mae pobl ar frys. Mae pobl isie defnyddio rhywbeth unwaith cyn ei daflu.

"Ond mae'n rhaid i bobl ddechrau newid eu harferion ac mae'n rhaid i gwmnïau mawr wneud newidiadau hefyd.

"Pobl isie helpu"

Mae llygredd ar draethau yn dechrau gwella, meddai Alun – achos bod pobl yn dechrau deall y broblem.

"Mae gan fwy o bobl dddiddordeb – yn enwedig pobl ifanc. Maen nhw isie gwybod beth gallan nhw wneud i helpu."

Mae Surfers Against Sewage yn mynd i ysgolion i siarad gyda phobl ifanc am y broblem. Maen nhw'n mynd â grwpiau o bobl i'r traethau i gasglu sbwriel hefyd.

Yn ôl Alun Moseley, mae'r gwaith yma'n bwysig ond dydy casglu pob darn o sbwriel ddim yn mynd i ateb y broblem. Rhaid rhwystro'r sbwriel yn y lle cyntaf, meddai.

"Mae angen addysgu pobl ynglŷn â beth gallan nhw wneud i helpu. Wrth fynd â phobl i'r traethau, rydyn ni'n gallu dangos iddyn nhw faint o broblem ydy hyn.

"Dyn ni'n mynd â gwleidyddion i'r traethau hefyd. Mae angen lobi

Y blaned blastig

Dych chi'n cofio *Blue Planet*, rhaglenni David Attenborough?

Ar ôl gweld y rhaglenni, mae llawer o bobl yn poeni am blastig yn y môr.

Maen nhw'n cofio gweld albatros yn bwydo plastig i'w chywion.

Maen nhw'n cofio gweld dolffin bach yn cael llygredd yn llaeth ei fam.

"Mae dyfodol bywyd i gyd yn dibynnu arnon ni nawr," meddai David Attenborough.

Geiriau

ar ôl – *after*
bwydo ... i'w chywion – (to) *feed her chick,-s*
llygredd – *pollution*

Mae dyfodol bywyd i gyd yn dibynnu arnon ni nawr. – *The future of all life now depends on us.*



Beth ydy'r ateb?

Dyma rai o'r atebion, meddai Alun Moseley:

- Defnyddio llai o boteli plastig un-tro
- Defnyddio llai o fagiau plastig
- Stopio defnyddio gwellt yfed plastig a ffyn cotwm.
- Ond mae plastig yn handi; mae plastig yn ddefnyddiol. Mae plastig yn cadw bwyd yn ffres. Ydyn ni'n gallu byw heb blastig? Beth dych chi'n feddwl?

Geiriau

ateb,-ion – *answer,-s* straw,-s
defnyddio – (to) *use* ffon, ffyn cotwm –
llai – *fewer, less* cotton bud,-s
un-tro – *single use* defnyddiol – *useful*
gwelltyn, gwellt – *cadw – (to) keep*

PLASTIG - Y FFEITHIAU

Yn 1950, roedd 2.5 biliwn o bobl yn byw yn y byd.

Roedden nhw'n cynhyrchu 1.5 miliwn tonn o blastig.

Erbyn 2016, mae 7 biliwn o bobl yn y byd. Dyn ni'n cynhyrchu mwy na 320 miliwn tonn o blastig.

Mae disgwyl i'r ffigwr yma ddyblu erbyn 2034.

Bob dydd, mae tua 8 miliwn o ddarnau o blastig yn mynd i mewn i'r môr.

Mae tua 5,000 o eitemau plastig ar hyd pob milltir o draeth yn y Deyrnas Unedig.

Mae tua 150 o boteli plastig yn llygru pob milltir o draethau'r Deyrnas Unedig.

Mae 100,000 o famaliaid y môr a chrwbanod y môr a miliwn o adar y môr yn cael eu lladd gan lygredd plastig yn y môr bob blwyddyn.

"Mae diwydiannau a busnesau'n dibynnu ar eu cwsmeriaid ac os ydy'r cwsmeriaid yn gwrthod prynu pethau plastig, mae'n gwneud gwahaniaeth mawr."

Geiriau

system atgennedlu – *reproductive system*
gwrthod – (to) *refuse*

gwleidyddion a chynghorau i alw am newid."

Mae un Aelod Cynulliad wedi gweithredu. Aeth Joyce Watson â bag o sbwriel i Siambr y Cynulliad ym mis Mehefin. Roedd hi isie tynnu sylw at lygredd plastig.

Joyce Watson ydy Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hi'n dweud ein bod ni'n dibynnu gormod ar blastig.

Mae hynny'n "ymyrryd â balans byd natur" ac mae angen i ni wneud rhywbeth i newid hyn, meddai hi.

Mae hi'n galw ar bobl i newid eu harferion er mwyn ceisio gwella'r broblem.

Geiriau

rhwystro – (to) *prevent, stop*
ynglŷn â – *regarding, concerning*
gwleidydd,-ion – *politician,-s*
cyngor, cynghorau – *council,-s*
gweithredu – (to) *act, take action*
ymyrryd â – (to) *interfere with*
arfer,-ion – *practice,-s, habit,-s*



Os dych chi isie mwy o wybodaeth am lygredd plastig, ewch i wefan Surfers Against Sewage:
www.sas.org.uk Dych chi'n gallu gweld pryd maen nhw'n casglu sbwriel ar y traethau hefyd.

Mae 2018 yn Flwyddyn y Môr. Felly, mae anghenfil môr o'r enw Cragen yn mynd o gwmpas arfordir Cymru i roi neges bwysig i bobl ...

Neges mewn Cragen!

Dach chi'n credu mewn angenfilod? Dach chi wedi gweld anghenfil yn y môr?

Dach chi wedi gweld Cragen?

Dach chi wedi gweld Cragen ar lan y môr yng Nghymru yn ystod y misoedd diwetha efallai. Mae Cragen yn anghenfil ond anghenfil plastig ydy o.

Mae hi'n dathlu Blwyddyn y Môr 2018 ond mae ganddi hi neges bwysig iawn hefyd. Y neges ydy bod gwastraff plastig yn cael effaith ofnadwy ar yr amgylchedd a byd natur.

Mae Theatr Byd Bychan o Aberteifi wedi gwneud Cragen. Cwmni theatr ydy o ac mae'n gwneud pypedau mawr iawn. Mae Cragen yn byped enfawr ac mae hi'n gallu teithio ar y môr. Mae hi'n hir iawn hefyd – tua 20 metr o hyd.

Plastig

Plastig ydy Cragen, ond mae'r cwmni wedi aildefnyddio neu ailgylchu plastig wrth ei chreu hi.

O dan ei phen a'i chorff hi, mae catamarán bach. Mae'r catamarán yn helpu Cragen i nofio ar y dŵr.

“Roedd y catamarán yn gorwedd mewn gwrych. Wnaethon ni ofyn i'r perchennog am ganiatâd i'w defnyddio hi,” meddai Sam Vicary, rheolwr marchnata Theatr Byd Bychan.

“Dan ni wedi defnyddio pethau wedi'u hailgylchu i wneud ei phen hi a dan ni wedi defnyddio gwastraff plastig a phlastig o'r traethau i'w haddurno hi.”

Ond dyma'r newyddion da – doedd dim llawer o wastraff ar draethau Cymru, meddai Sam Vicary.

“Mae traethau Cymru yn lân iawn. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwneud gwaith ardderchog i gadw ein traethau yn lân.”



Geiriau

neges – message
 cragen – shell
 felly – so, therefore
 anghenfil, angenfilod – monster,-s
 o gwmpas – around
 arfordir – coast
 rhoi – (to) give
 pwysig – important
 effaith – effect
 amgylchedd – environment
 o hyd – in length
 aildefnyddio – (to) reuse
 ailgylchu – (to) recycle
 gwrych = clawdd – hedge
 caniatâd – permission
 rheolwr marchnata – marketing manager

Lluniau mewn llyfr

Daeth y syniad ar gyfer Cragen o lyfr.

Roedd Theatr Byd Bychan wedi gweld lluniau yn llyfr y naturiaethwr, Conrad Gessner, o'r Swistir – llyfr sy'n fwy na 460 oed. Mae'r llyfr yn cael ei gadw yng Nghanolfan Ymchwil Roderic Bowen ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan.

“Gadawodd y llyfrgell i ni fynd yno i edrych ar y lluniau hyfryd. Mi wnaeth y lluniau ein hysbrydoli ni i wneud Cragen,” meddai Sam Vicary.

Dim ond chwech wythnos oedd gan y tîm i wneud Cragen. “Dan ni wedi bod yn gweithio'n galed iawn! Mae gynnon ni dîm bychan o staff ond mae llawer o bobl eraill wedi bod yn helpu, fel actorion a phypedwyr.”



Beth ydy Crageneg?

Mae'r theatr isio i bobl ymuno yn y perfformiadau a'r dathliadau.

Dach chi'n gallu cyfarfod â chymeriad arbennig, yr 'Athro DW'. Mae hi'n gwybod llawer am angenfilod môr achos mae hi wedi bod yn astudio angenfilod ers blynyddoedd.

Actores o'r enw Delyth Wyn ydy'r 'Athro DW' ac mae hi'n dod o ardal Aberteifi.

Dach chi'n gallu cael cyfle i ddysgu iaith newydd hefyd – Crageneg, iaith unigryw Cragen.

Pa fath o iaith ydy Crageneg ... a sut mae anghenfil môr yn swnio? Rhaid i chi fynd i gyfarfod â Cragen i ddysgu mwy!

Teithio

Mae Cragen yn teithio i wahanol lefydd mewn fan! Dydy hi ddim yn gallu teithio yn y môr yr holl ffordd. Mae ei phen hi'n teithio yn y trelar ac mae ei chanol a'i chynffon hi yn y fan.

"Dan ni'n ei rhoi hi at ei gilydd a'i rhoi hi yn y dŵr yn dawel bach, felly mae pobl yn ei gweld hi'n cyrraedd yn y môr.

"Dan ni'n gorfod gweithio gyda'r harbwr feistr a swyddogion eraill a dweud wrth wylwyr y glannau pan fydd Cragen yn cyrraedd. Mae angen gweithio efo lot o bobl!" meddai Sam Vicary.

Geiriau

naturiaethwr – *naturalist*
 gadael – (to) *let, allow*
 unigryw – *unique*
 gwylwyr y glannau – *the coastguards*

Dach chi isio gweld Cragen?

Mae'r cwmni theatr yn mynd â Cragen ar daith i ddeg lle ar hyd arfordir Cymru. Mae'r daith yn dod i ben ym mis Rhagfyr.

Ym mis Awst, roedd Cragen yng Ngheredigion a Sir Benfro.

Ym mis Medi, roedd Cragen yn nhref Biwmares, Ynys Môn, ac yn nhref wyliau Llandudno.


Yn y dyfodol, bydd Cragen yn cymryd rhan yng Ngwledd Conwy Feast ar 27 Hydref.

Ar ôl hynny, bydd Cragen yn dod yn ôl i Aberteifi ac yn cymryd rhan yn y Parêd Llusernau enfawr yn y dref ar 7 Rhagfyr.

Bydd Cragen yn teithio i fyny afon Teifi ac yn aros o flaen y castell yn Aberteifi. Bydd goleuadau tu mewn iddi hi.

Geiriau

dod i ben – (to) *come to an end*
 cymryd rhan – (to) *take part*
 parêd llusernau – *lantern parade*



Dyma Cragen

Anghenfil môr ydy Cragen.

Anghenfil plastig ydy hi ond mae'r plastig wedi'i ailgylchu.

Mae hi'n teithio i lefydd o gwmpas arfordir Cymru.

Mae Cragen yn rhoi neges bwysig i bobl am broblemau plastig yn y môr.

Mae cwmni theatr Byd Bychan, yn Aberteifi, wedi gwneud Cragen. Mae'r cwmni theatr yn gwneud pypedau mawr.

Mae Cragen yn siarad iaith arbennig – Crageneg.

Geiriau

anghenfil – *monster*
 wedi'i ailgylchu – *recycled*
 lle,-fydd – *place,-es*
 o gwmpas – *around*
 arfordir – *coast*
 neges – *message*
 cwmni – *company*
 wedi gwneud – *has made*

Dyma ble mae Cragen ym mis Hydref a mis Rhagfyr:

Gwledd Conwy Feast – 27 Hydref, 7pm
 Parêd Llusernau Aberteifi – 7 Rhagfyr, 7pm

Geiriau

parêd llusernau – *lantern parade*

Dach chi'n gallu darllen mwy am broblemau plastig ar dudalennau 8 a 9.

Mae'r cogydd, Isaac Simeon, yn dod o Barcelona. Mae o wedi agor patisserie yng Nghonwy. Mae o'n gwneud cacennau blasus a bara ...

O Gatalwnia i Gonwy

Dach chi'n hoffi cacennau ... ac arogl bara ffres o'r popty?

Mae Isaac Simeon yn gogydd. Mae o'n arbenigo mewn bara a chacennau yn ei siop patisserie yng Nghonwy. Mae'r siop ar agor ers tua chwe mis.

Mae Isaac Simeon yn dod o Barcelona. Mae o'n byw yng Nghymru ers tua phum mlynedd. Mae o'n byw ym Mae Penrhyn, Sir Conwy, efo'i wraig, Claudia. Mae gynnyn nhw ddau o blant. Mae ei ferch, Hannah, yn 9 oed, a'i fab, Max, yn 1 oed.

Mae Isaac yn coginio popeth yn ffres yn ei siop. Mae o'n dechrau gwneud y bara a'r cacennau am bump o'r gloch y bore ac mae o'n gorffen tua phump o'r gloch y prynhawn.

Mae Isaac yn dweud, "Mae'r oriau'n hir iawn a dw i ddim yn stopio drwy'r dydd ond mae'r amser yn hedfan. Mae pobl yn dod i mewn i'r siop am sgwrs a choffi a dw i'n brysur yn gwneud cacennau ar gyfer y diwrnod wedyn."

Mae o'n gwneud cacennau ar gyfer dau gaffi arall yn yr ardal hefyd.

Yn ôl Isaac, mae llawer o bobl leol yn dod i'w siop yng Nghonwy. Maen nhw'n hoffi'r



bwyd ffres ac mae hynny'n debyg i'w gartref.

"Yn Barcelona, dydy pobl ddim yn prynu bara a croissants a chacennau o'r archfarchnad," meddai. "Maen nhw'n hoffi

bwyd ffres, organig sy'n cael ei goginio â llaw. Mae llawer o siopau bach yno.

"Os dach chi eisiau cig, dach chi'n mynd at y cigydd, os dach chi isio pysgod ffres, dach chi'n mynd i'r siop bysgod. Mae siopau bach eraill jest yn gwerthu ffrwythau a llysiau.

"Yng Nghonwy, mae tua 90% o'n cwsmeriaid yn bobl leol. Maen nhw'n gwerthfawrogi beth dw i'n gwneud. Os dach chi isio bwyd o safon, mae'n rhaid i chi dalu ychydig bach mwy."

Geiriau

cogydd – chef
wedi agor – has opened
Catalwnia – Catalunya
awr, oriau – hour, -s
y diwrnod wedyn – the day after
yn ôl – according to
i'w – to his
hynny – that
yn debyg i – similar to, like
sy'n cael ei goginio – that is cooked
gwerthfawrogi – (to) appreciate
o safon – of a good standard

Cymru – pam?

Mae Isaac Simeon yn coginio ers pan oedd o'n 16 oed. Roedd o'n gweithio mewn bwytai traddodiadol yn Barcelona. Wedyn, roedd o'n gweithio mewn bwyty efo seren Michelin. Yno, dysgodd o sut i wneud cacennau a bara.

"Un diwrnod, gadawodd y cogydd oedd yn gwneud y patisserie – a ddaeth o ddim yn ôl! Mi wnes i ddweud, 'Dw i'n gallu gwneud y gwaith yn ei le,'" meddai Isaac.

Roedd o'n gweithio yn y bwyty am bum mlynedd cyn agor ei fwyty ei hun yn y Pyrenees, yn Sbaen. Wedyn, mi wnaeth o gau'r bwyty a symud i Golombia gyda Claudia. Yno, roedd o'n gweithio mewn coleg yn dysgu myfyrwr sut i goginio. Hefyd, roedd o ar y teledu yn siarad am goginio.

Ond roedd Isaac yn colli Barcelona ac roedd o isio symud



yn ôl. Roedd Claudia isio astudio yn Barcelona hefyd. Cynllunwyd diwydiannol ydy hi.

Y broblem, meddai Isaac, ydy bod yr economi yn Sbaen yn wael. Felly, mae Catalwnia yn dioddef hefyd. Roedd y cyflogau'n llawer is na'r cyflogau cyn iddo fo fynd i Golombia.

Mae dadlau gwleidyddol yn Sbaen hefyd. Mae Catalwnia isio bod yn wlad annibynnol, ond dydy Sbaen ddim isio hynny. Mae Isaac yn cefnogi annibyniaeth.

Mae un rheswm arall pam mae Isaac a'r teulu yng Nghymru rwan. Mae chwaer Isaac yn byw yng ngogledd Cymru. "Tyrd i Gymru," dywedodd hi wrth Isaac.

Mi ddaeth y teulu drosodd yn 2014. I ddechrau, roedd gan Isaac siop patisserie ym Mae Colwyn ond ers chwe mis, mae gynno fo'r siop yng Nghonwy.

Mae'r teulu wedi setlo yng ngogledd Cymru erbyn hyn – ond dydy Claudia ddim yn hoffi'r tywydd. Mae hi'n colli'r tywydd

yng Ngholombia lle mae hi'n 24°C drwy'r amser!

Mae hi'n mynd â'r plant, Max a Hannah, i Golombia am fis ym mis Rhagfyr. Maen nhw'n mynd i weld y teulu i gyd a chael gwyliau ym Mecsico ond fydd Isaac ddim yn cael gwyliau. Mae'r Nadolig yn amser prysur iddo fo. Mi fydd o'n aros yng Nghonwy yn gwneud cacennau!

A mousse, efallai ... dyma rysâit gan Isaac i **lingo newydd** ...

Geiriau

gadawodd – (he) left
oedd yn gwneud – who made
yn ei le – instead of him, in his place
cynllunwyd diwydiannol – industrial designer
is – lower
dadlau gwleidyddol – political debate
annibynnol – independent
annibyniaeth – independence

Dyma Isaac Simeon

Mae Isaac yn gogydd. Mae o'n gwneud cacennau a bara. Mae gynno fo siop patisserie yng Nghonwy. Mae o'n byw yng Nghymru ers 2014. Mae gynno fo wraig, Claudia, a dau blentyn, Max a Hannah. Mae Claudia yn dod o Golombia. Mae'r teulu'n siarad Cymraeg, Catalaneg, Sbaeneg a Saesneg.

Geiriau

cogydd – chef
mae gynno fo = mae ... 'da fe – he's got ...
ers – since



Rysait Mousse siocled

Cynhwysion

250g o siocled tywyll
250 ml o lefrith/laeth
100g o felynwyr
300g o hufen wedi'i chwipio

hylif fel hufen.

3. Yna, rhowch y siocled i mewn.

4. Pan fydd y tymheredd yn 30°C, tynnwch y gymysgedd oddi ar y gwres a rhowch yr hufen yn y gymysgedd.

5. Rhowch y gymysgedd yn yr oergell am tua 20 munud.

Blasus efo mefus neu ffrwythau eraill!

Dull

1. Rhowch y llefrith mewn sosban i gynhesu.
2. Pan fydd y llefrith yn dechrau berwi, rhowch yr wyau yn y llefrith a chymysgwch nes bod yr

Geiriau

melynwyr – egg yolk
hylif – liquid
cymysgu – (to) mix
cymysgedd – mixture

Un teulu, llawer o ieithoedd

Mae'r teulu'n siarad llawer o wahanol ieithoedd. Mae Isaac yn siarad Catalaneg, Sbaeneg a Saesneg.

"Ro'n i'n siarad Catalaneg adre efo fy nheulu drwy'r amser ond, yn yr ysgol, ro'n i'n dysgu Sbaeneg a Saesneg. Do'n i ddim yn dda iawn yn dysgu Saesneg!" meddai Isaac.

Mae ei wraig, Claudia, yn dod o Golombia ac mae hi'n siarad Sbaeneg a Saesneg.

Mae Isaac yn siarad Sbaeneg gyda Claudia ond mae o'n siarad Catalaneg gyda'i blant.

Mae Hannah, eu merch nhw, yn mynd i ysgol gynradd leol. Yno, mae hi'n dysgu Cymraeg. Mae hi'n medru siarad Catalaneg, Sbaeneg, Saesneg a Chymraeg!

Geiriau

iaith, ieithoedd – language,-s
Catalaneg – Catalan (language)
medru = gallu – (to) be able, can



Y Sêr gyda Chris Needs



Y HRWDD

Gwnewch beth sy'n gweithio i chi. Mae newid mawr yn gallu bod yn anodd i chi nawr. Byddwch yn ofalus. Bydd rhywun yn ceisio'ch temptio chi efallai.



Y TARW

Bydd angen talu rhai biliau efallai. Talwch nhw pan maen nhw'n dod. Peidiwch â mynd am yr opsiwn rhata – bydd hyn yn costio mwy yn y diwedd. Mae llythyr swyddogol yn eich helpu chi, felly cadwch lygad ar y post.



Y EFEILLIAID

Bydd rhaid i chi newid eich cynlluniau efallai. Cymerwch eich amser. Byddwch chi'n hapus gyda beth sy'n digwydd. Ydy un o'ch ffrindiau chi angen ychydig o help? Triwch siarad gyda nhw.



Y CRANC

Peidiwch â phoeni am beth sy'n digwydd o'ch cwmpas chi. Bydd popeth yn iawn. Byddwch chi'n cael ychydig o arian efallai ond peidiwch â gwario'r arian i gyd ar ddillad a mynd allan. Mae'n braf cael ychydig o arian yn y banc.



Y LLEW

Mae ffrind yn ceisio cael eich sylw chi efallai. Rhaid siarad â'r ffrind ond rhaid bod yn onest. Mae'n syniad da cael cyngor. Byddwch yn gall.



Y FORWYN

Byddwch yn ofalus gyda beth dych chi'n taflu i ffwrdd. Mae rhywbeth gwerthfawr yng nghanol y sbwriel, efallai. Mae angen cael cyngor gan bobl sy'n gwybod. Talwch eich biliau ar amser – dych chi ddim isie talu mwy am dalu'n hwyr. Oes rhywbeth o'i le mewn dogfen swyddogol? Triwch ddatrys y problem.



Y GLORIAN

Triwch gysylltu gyda hen ffrind. Os dych chi ddim, bydd pethau'n waeth. Byddwch chi'n hapus ar ôl cysylltu gyda'r ffrind. Mae amser da'n dod, felly mwynhewch bob munud.



Y SGORPION

Peidiwch â cholli'ch tymer gyda phobl. Oes problem? Oes rhywun wedi brifo'ch teimladau chi? Mae'n bwysig eich bod chi'n gall. Mae'n amser da i gael gwyliau bach neu ginio neis.



Y SAETHWR

Mae'n bwysig cadw llygad ar eich iechyd. Oes rhywbeth yn eich poeni chi neu rywun agos? Dych chi'n gallu datrys problemau drwy siarad gyda doctor neu rywun yn yr un sefyllfa â chi. Peidiwch â bwyta gormod o fwyd afiach. Mae amser da'n dod.



Y RAFR

Mae'r pethau bach yn bwysig – fel anfon cerdyn neu ffonio i ddweud diolch. Mae'n gallu codi calon rhywun. Byddwch chi'n hapus ar ôl cael llythyr o Loegr ond cadwch hyn i chi'ch hun. Bydd rhai pobl yn genfigennus efallai.



Y CARIWR DŴR

Mae'n bryd i chi edrych ymlaen at y dyfodol a chymryd pob cyfle. Mae'n bryd i chi gael profiadau newydd. Mae rhywbeth neis bob hyn a hyn yn beth da. Gwyliau yn yr haul efallai?



Y PYSGODYN

Dych chi'n haeddu sylw. Dych chi'n rhan fawr o fywyd pobl a dych chi'n haeddu cael clod. Mae llawer o bobl yn eich caru chi. Mae'ch gwaith chi'n bwysig iawn. Cariwch ymlaen. Byddwch chi'n siŵr o gael gwobr.

Geiriau

temptio – (to) tempt
rhata – cheapest
swyddogol – official
sylw – attention
cyngor – advice
yn gall – sensible
gwerthfawr – valuable
sy'n gwybod – who know
rhywbeth o'i le – something wrong
datrys – (to) sort, resolve
cysylltu â – (to) get in touch with
gwaeth – worse
tymer – temper
yr un sefyllfa – the same situation
cenfigennus – jealous
pob cyfle – every opportunity
bob hyn a hyn – every now and then
haeddu – (to) deserve
clod – praise

Mae Gwenfair Vaughan yn actores. Mae hi'n byw yn Efrog Newydd. Hi ydy Mrs Tiggy-Winkle!

Efrog Newydd



Faint ydy'ch oed chi?

Fel arfer, dydy actorion ddim yn dweud faint ydy eu hoed nhw! Felly, dw i'n dweud hyn: Dw i 'yr un oed â bawd fy nhroed a thipyn bach hŷn na fy nannedd!

O le dach chi'n dod yn wreiddiol?

Dw i'n dod o bentref bach yn Nyffryn Ogwen yng Ngogledd Cymru. Mae'n hyfryd.

Lle cawsoch chi'ch addysg?

Es i i Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, ac yna i'r coleg ym Mangor.

Dach chi'n byw yn Efrog Newydd.

Pam?

Ro'n i'n gweithio fel actores yng Nghymru ym maes teledu a radio ac yn y theatr yn rhyngwladol. Yna, mi wnes i benderfynu mynd i astudio fy nghrefft yn Efrog Newydd. Ro'n i isio'r profiad o fyw mewn diwylliant gwahanol.

Ers faint dach chi'n byw yno?

Dw i'n byw yn Efrog Newydd ers 13 mlynedd.

Be' dach chi'n wneud yn Efrog Newydd?

Dw i'n gweithio fel actores. Dw i'n portreadu cymeriad Mrs Tiggy-Winkle yn y gyfres deledu 'Peter Rabbit'. Cwpl o flynyddoedd yn ôl, enillodd y rhaglen wobwr EMMY. Dw i'n perfformio yn y theatr yn Efrog Newydd hefyd a dw i'n aelod o gwmi The Irish Rep Theatre.



Be' dach chi'n hoffi am Efrog Newydd?

Dw i'n hoff iawn o fwrlwm y ddinas, yr amrywiaeth o ddiwyllianau a'r arlwy theatrig. Hefyd, mae hi'n ddinas dda i gerdded ynddi – dw i'n hoffi hynny. Pan dw i ddim yn y theatr, dw i'n mwynhau cerdded o gwmpas Efrog Newydd. Does dim traffig ar stryd enwog Park Avenue ym mis Awst. Dan ni'n gallu cerdded drwy Manhattan – o un pen i'r llall – mae'n bell ond mae o werth o!

Pa fath o fwyd dach chi'n mwynhau yn Efrog Newydd?

Dw i wrth fy modd efo bywd Mecsicanaidd. Ar ôl diwrnod caled, does dim byd gwell na margarita bach a phryd o fwyd!

Be' dach chi'n gollu am Gymru?

Dw i'n colli fy nheulu, yr iaith a'r wlad werdd, hyfryd. Wrth fynd i wahanol rannau o'r byd, dw i'n gwerthfawrogi pa mor hardd ydy Cymru. Dw i mor lwcus fy mod i wedi cael fy magu mewn gwlad mor ddiwylliannol a hyfryd!

Geiriau

bwrlwm – buzz
amrywiaeth – variety
arlwy – provision
gwerthfawrogi – (to) appreciate
diwylliannol – cultural

Geiriau

Efrog Newydd – New York
yr un oed – the same age
bawd fy nhroed – big toe
yn hŷn na – older than
dant, dannedd – tooth, teeth
addysg – education
yn rhyngwladol – internationally
diwylliant – culture

Dyma Gwenfair

Be' ydy'ch enw chi?

Fy enw i ydy Gwenfair Vaughan.

Be' ydy'ch gwallth chi?

Actores ydw i.

Lle dach chi'n byw?

Dw i'n byw yn Efrog Newydd ond dw i'n dod o Ddyffryn Ogwen yn wreiddiol.

Dach chi'n hoffi Efrog Newydd?

Ydw. Dw i'n hoffi cerdded drwy'r ddinas ... a dw i'n hoffi bywd Mecsicanaidd.

Dach chi'n colli Cymru?

Ydw. Mae Cymru'n hardd iawn.

Geiriau

be' = beth – what?
lle = ble – where?
dach chi'n = dych chi'n – do you?
Efrog Newydd – New York
Mecsicanaidd – Mexican
colli – (to) miss
hardd – beautiful





Natur

gyda Bethan Wyn Jones

Mae'r coed yn hyfryd yn yr hydref ac mae lliwiau'r fasarnen fach yn fendigedig. *Field maple* ydy'r enw Saesneg ac *acer campestre* ydy'r enw gwyddonol. Yn yr hydref, mae'r goeden yn troi'n goch ac aur hyfryd.

Y Fasarnen Fach

Fel arfer, mae'r fasarnen fach yn tyfu yn y gwrychoedd. Tua 18 metr ydy uchder mwya cyffredin y coed yma ond yn aml, maen nhw'n cael eu prysgoedio. Mae bôn – cyff – rhai coed yn gallu bod yn 600 oed!

Brown neu lwyd ydy lliw rhisgl y goeden ac mae sawl agen ynddo. Mae rhisgl hen ganghennau yn gallu edrych fel corc. Mae pren y goeden yn cael ei ddefnyddio gan grefftwy'r ac mae'n lliw brown golau hardd.

Mae'r dail ar goesynnau eitha hir sy'n goch. Os dach chi'n torri'r coesyn, mae sudd llaethog, gwyn yn llifo allan.

Mae'r blodau'n ymddangos yn fuan iawn ar ôl y dail – clystyrau llac o tua deg i ugain o flodau melyn-wyrdd. Gwenyn mêl sy'n peillio'r blodau ac mae'r hadau'n dod yn fuan wedyn.

Allweddau Mair ydy enw'r hadau. Mae'r hadau'n debyg i hadau sycamor.



Masarn melys!

Mae llawer o siwgr yn y fasarnen. Mae'n storio'r siwgr dros y gaeaf. Yna, yn y gwanwyn, mae'r siwgr yn llifo er mwyn i'r blagur a'r dail ddatblygu.

Yng ngogledd Ewrop, roedden nhw'n casglu sudd y fasarnen fach achos roedd o mor felys a defnyddiol. Roedd pobl yn gwthio tiwbiau i mewn i foncyff y goeden. Wedyn, roedden nhw'n rhoi cwpanau dan y tiwbiau er mwyn casglu'r sudd melys. Roedden nhw'n cymryd y sudd ac yn ei ferwi o er mwyn gwneud surop trwchus.

Heddiw, mae surop masarn yn dod yn bennaf o'r fasarnen siwgr (*Acer saccharum*), y *sugar maple*. Mae'r fasarnen yma'n gyffredin yng nghoedwigoedd llydanddail Gogledd America.

Mae sawl math o fasarnen ac mae deilen y fasarnen ar faner Canada, wrth gwrs. Mae coed masarn ar eu gorau yn yr hydref, ac mae'n werth mynd am dro i weld y coed yma yn eu holl ogoniant.

Geiriau

- yr hydref – autumn
- gwyddonol – scientific
- uchder mwya cyffredin – most common height
- prysgoedio – (to) coppice
- bôn, cyff – trunk
- rhisgl – bark
- agen – split, crack
- cangen, canghennau – branch,-es
- coesyn,-nau – stem,-s
- llaethog – milky
- llifo – (to) flow
- ymddangos – (to) appear
- clwstwr, clystyrau – cluster,-s
- llac – loose
- gwenyn mêl – honey-bees
- peillio – (to) pollinate
- hedyn, hadau – seed,-s

Geiriau

- masarnen, masarn – maple tree,-s
- llifo – (to) flow
- er mwyn – in order
- blagur – blossom
- datblygu – (to) develop
- defnyddiol – useful
- gwthio – (to) push
- boncyff – trunk
- surop – syrup
- yn bennaf – mainly
- yn gyffredin – common
- llydanddail – broad-leaved
- yn eu holl ogoniant – in all their glory

Dyma'r Fasarnen Fach

Mae coed yn hardd yn yr hydref.
Mae un goeden yn hardd iawn.
Mae ei dail hi'n goch ac aur.
Beth ydy enw'r goeden? Y fasarnen fach.
Ble mae hi'n tyfu? Mae'r fasarnen fach yn tyfu mewn gwrychoedd.
Ydy hi'n goeden fawr? Dydy hi ddim yn fawr iawn – mae hi tua 18 metr efallai.
Ydy hi'n ddefnyddiol? Ydy, mae'r pren yn ddefnyddiol ac mae sudd melys yn y goeden.
Mae pobl gogledd Ewrop yn gwneud surop efo'r sudd.

Geiriau

- masarnen fach – field maple
- ei dail hi – its leaves
- aur – gold
- tyfu – (to) grow
- gwrych,-oedd = clawdd, cloddiau – hedge,-s
- tua – approximately
- defnyddiol – useful
- pren – wood
- sudd – sap
- melys – sweet
- gogledd – northern
- surop – syrup

Mae **Y Salon** yn gyfres ar S4C. Mae'n mynd i salons trin gwallt yng Nghymru. Mae'n siarad â'r cwsmeriaid a'r steilwyr gwallt – ac mae'n clywed eu straeon ...

Digon i godi gwallt eich pen!

Dych chi'n mynd i siop trin gwallt? Dych chi'n mwynhau mynd yno? Mae'n lle da i gael sgwrs a hel clecs! Mae pobl yn hoffi rhannu problemau a chyfrinachau pan maen nhw mewn siop trin gwallt!

Dych chi'n edrych ar **Y Salon**? Mae'r gyfres deledu yn ôl ar S4C ym mis Hydref.

Mae'r gyfres yn mynd i wahanol siopau trin gwallt yng Nghymru i gyfarfod â'r cwsmeriaid a'r steilwyr gwallt.

Y tro yma, mae camerâu **Y Salon** yn mynd i siopau trin gwallt yng Nghaernarfon – Magic Clippers a Clip a Snip a Gwinedd Sonia – ac i C&J ym Mangor, N&Co yn Llanelli, Cherise Amore yn yr Wyddgrug, Tommy Shelby's yn Llanharan a Toriad Taclus yn Llanybydder.

Ond mae **lingo newydd** yn rhoi sylw i un salon arall – yng Ngheredigion.

Mae Carys a'i mam, Llinos, yn rhedeg Salon 3N Gwallt (Tri N Gwallt!) yn Nhregaron.

Mae ci bach o'r enw Persi 'da nhw ac mae e'n dod i'r siop. Mae'r cwsmeriaid yn hoffi Persi. Mae e'n cael llawer o sylw yn y rhaglen!

Yma, mae Llinos a Carys yn ateb cwestiynau **lingo newydd** am eu salon a'u cwsmeriaid...

Geiriau

cyfres – series
trin gwallt – *hairdressing*
stori, straeon – *story, stories*
sgwrs – *chat*
hel clecs – *(to) gossip*
cyfrinach,-au – *secret,-s*
rhoi sylw i – *(to) give attention to*



Ers faint dych chi yn y salon?

Dyn ni yma ers pedair blynedd.

Dych chi'n torri gwallt, wrth gwrs, ond beth arall dych chi'n wneud?

Dyn ni'n gwneud pob math o bethau yn 3N gwallt – lliwio, permo a steilio gwallt ar gyfer priodasau. Mae Anna, ein *beautician*, yn gwneud ewinedd, *massages, manicures, pedicures* – pob math o bethau!

Pa fath o gwsmeriaid sy 'da chi?

Mae hen bobl a phobl ifanc, dynion a menywod yn dod yma – pob math o bobl. Mae lot o gymeriadau yn Nhregaron!

Dych chi'n clywed straeon rhyfedd pan dych chi'n torri gwallt pobl?

O ydyn!! Dyn ni'n cael llawer o straeon diddorol gan bobl Tregaron. Ond dyn ni ddim yn gallu ailadrodd rhai o'r straeon yma!

Geiriau

ewinedd – *nails*
menyw,-od – *woman, women*
cymeriad,-au – *character,-s*
ailadrodd – *(to) repeat*
beth amdana i? – *what about me?*

Ydy Persi yn dod i'r salon bob dydd?

Dim bob dydd – dydy rhai cwsmeriaid ddim yn hoffi cŵn.

Beth mae'r cwsmeriaid yn meddwl o Persi?

Mae rhai pobl yn stopio fi ar y stryd i ofyn sut mae Persi – a dw i'n meddwl, "Helo? Beth amdana i, Carys!!"



Llinos, sut dych chi'n hoffi gweithio gyda'ch merch chi? Dych chi'n dod ymlaen yn dda?

Dyn ni'n dod ymlaen yn dda ond dw i'n clywed rhai pethau am fy merch ddylai rhiant ddim clywed! Ond does dim byd yn fy synnu i erbyn hyn – Carys ydy Carys!

Pa mor anodd ydy cael camerâu yn eich gwyllo chi pan dych chi'n gweithio?

Roedd e'n rhyfedd i ddechrau. Dych chi'n gwyllo eu bod nhw yno ond, ar ôl ychydig, dych chi'n anghofio amdany'n nhw.

Oes rhywun wedi gofyn i chi wneud rhywbeth gwahanol iawn, fel steil gwallt anarferol?

Gofynnodd un briodferch i fi dorri ei gwallt hir, hir yn fyr yn hwyr ar noswyl ei phriodas – anarferol iawn!

Cyfrinachau Carys

Carys, sut dych chi'n hoffi gweithio gyda'ch mam chi?

Dw i'n lico gweithio gyda Mam, ond dw i'n cofio pan oedden ni'n dechrau doedden ni ddim yn siarad am y gwaith ar ôl mynd adre!



Ydy pobl yn dweud eu cyfrinachau wrthoch chi pan dych chi'n torri eu gwallt?

Ydyn, mae pobl yn rhannu cyfrinachau gyda fi – gormod o gyfrinachau weithiau! Mae pobl yn ei chael hi'n hawdd siarad gyda fi. Dw i'n *open book*, felly mae pobl yn fy nhystio i, ac maen nhw'n dweud eu cyfrinachau. Mae Mam yn *counsellor* da. Mae rhai pobl yn dod i mewn jyst i siarad gyda hi – dydyn nhw ddim hyd yn oed angen torri eu gwallt!

Geiriau

synnu – (to) surprise
anarferol – unusual
priodferch – bride
noswyl – eve



Y Salon

Dych chi'n mynd i salon trin gwallt?

Dych chi'n hoffi mynd yno?

Mae cyfres ar S4C am salons trin gwallt. Yr enw ydy **Y Salon**.

Mae'r gyfres yn mynd i salons trin gwallt yng Nghymru.

Mae'n siarad â'r cwsmeriaid a'r steilwyr gwallt.

Weithiau, mae pobl yn dweud cyfrinachau!

Salon 3N Gwallt

Mae Carys a'i mam, Llinos, yn rhedeg salon 3N Gwallt yn Nhregaron, Ceredigion.

Mae hen bobl a phobl ifanc, dynion a menywod yn mynd i'r salon.



Mae ci bach 'da Carys. Enw'r ci ydy Persi.

Mae Persi yn dod i'r siop.

Mae'r cwsmeriaid yn hoffi Persi.

Geiriau

cyfres – series
salon,-s trin gwallt –
hairdressing salon,-s
dweud cyfrinachau – (to) tell secrets
a'i – and her
menyw,-od – woman, women
hen – old
ifanc – young
mae ... 'da ... = mae gan ...
– ... has got ...



Mae **Y Salon** yn dechrau nos lau, 4 Hydref am 9.30pm, am chwech wythnos. Mae is-deitlau Saesneg ar gael hefyd.

Mae Debora Morgante yn byw yn yr Eidal. Mae hi'n hoffi darllen llyfrau Cymraeg. Mae hi'n hoffi llyfrau am hanes Cymru. Yma, mae hi'n sôn am y nofel **Pren a Chansen** gan Myrddin ap Dafydd ...

Dewis Debora


Ym mis Gorffennaf y llynedd, ro'n i ar wyliau yng Nghymru gyda fy ngŵr. Aethon ni i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, yng Nghaerdydd.

Mae Sain Ffagan yn lle perffaith i dreulio diwrnod yn yr awyr agored ac i ddog i wybod mwy am hanes a ffordd o fyw'r Cymry dros y canrifoedd.

Ar y ffordd allan, stopiais i yn y siop. Ro'n i eisiau prynu llyfr Cymraeg. Gwelais i glawr nofel diddorol – roedd e'n dywyll ac roedd llun merch fach yn crio arno fe.

Roedd hi'n gwisgo darn o bren am ei gwddw. Roedd dwy llythren ar y darn o bren: W.N. – *Welsh Not*.

Pren a Chansen oedd teitl y nofel a'r awdur oedd Myrddin ap Dafydd.



cylchgronau. **Cymru'r Plant** ydy'r cyhoeddiad mwy poblogaidd erioed yn hanes Cymru.

Drwy'r cylchgrawn yma roedd y plant yn gallu dysgu popeth am y byd Cymraeg a sut i dyfu'n Gymry parchus, balch o'i hunaniaeth.

Barn Debora

Ro'n i'n teimlo'n emosynol iawn pan o'n i'n darllen **Pren a Chansen** gan Myrddin ap Dafydd. Dw i'n argymhell y nofel i bawb sy'n teimlo'n angerddol tuag at yr iaith Gymraeg ac sy isie iddi hi barhau am byth.

Pren a Chansen gan Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch

Geiriau

sôn am – (to) talk about
pren – wood
cansen – cane

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
– *St Fagans Museum of History*

treulio – (to) spend
canrif,-oedd – century, centuries
clawr – cover

llythren – letter (of the alphabet)
awdur – author

Dyma'r nofel

Mae'r nofel **Pren a Chansen** yn sôn am blant ers talwm yn cael eu cosbi am siarad Cymraeg yn yr ysgol.

Yr adeg yna, roedd y system addysg yn trio creu pobl hollol Seisnig. Doedd dim lle i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg. Doedd dim lle i enwau lleoedd Cymraeg a phethau oedd yn gwneud plant Cymru yn wahanol i blant Lloegr.

Oherwydd y penderfyniadau hyn a'r gosb mewn ysgolion, roedd y rhan fwy o'r plant yn gwrthod siarad Cymraeg.

Beth oedd y canlyniad? Roedd y system addysg yn golygu bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng. Mae ardaloedd yng Nghymru lle mae'r Gymraeg wedi diflannu'n llwyr, bron.

Yn ffodus, mae'r system wedi newid, diolch i rai pobl – fel Owen M. Edwards. Yn y nofel, mae'r awdur yn sôn amdano fe ac am ei gylchgrawn **Cymru'r Plant**.

Roedd Owen M. Edwards yn dod o Lanuwchllyn, ger y Bala. Roedd e'n arolygwyr ysgolion, llenor a chyhoeddwr

Geiriau

ers talwm – long ago
diwylliant – culture
cosb – punishment
gwrthod – (to) refuse
gostwng – (to) decrease
wedi diflannu'n llwyr – has completely disappeared
arolygwyr – inspector
llenor – literary person, author
cyhoeddwr – publisher
cyhoeddiad – publication
balch o'u hunaniaeth – proud of their identity
argymhell – recommend
angerddol – passionate

Dyma'r nofel

Mae'r nofel **Pren a Chansen** yn sôn am Bob.

Mae Bob yn dechrau'r ysgol ar ddechrau'r 20fed ganrif.

Mae Bob yn siarad Cymraeg.

Dydy Bob ddim yn gallu siarad Saesneg.

Mae Bob yn cael cosb am siarad Cymraeg.


Geiriau

sôn am – (to) talk about
dechrau – (to) start, beginning
canrif – century
gallu – (to) be able to
cosb – punishment



Croesair

Mae rhai o'r atebion yn y rhifyn yma o lingo newydd.



Ar draws

1. Ble mae môr-leidr yn cadw ei drysor. (4)
3. Mae o yno ... _____ fo! (4)
6. Ar ôl hynny. (5)
7. Lle i weld anifeiliaid o dros y byd. (2)
8. Mae hwn drosoch chi i gyd! (5)
10. Mae sawl un o'r rhain mewn telyn – neu gitâr. (4)
11. Nid buwch, ond y gwryw. (4)
12. Mae Gwenfair Vaughan yn byw yn _____ Newydd. (5)
14. Dych chi'n cael hwn mewn cwpan, yn y prynhawn efallai. (2)
15. Nid ia nac ie. (2)
17. Mae hwn ar ben eich tŷ. (2)
18. Mae llawer o blastig yn hwn. (3)

I lawr

1. Mae Connie Fisher yn enwog am hyn. (4)
2. Mae llawer o hwn mewn coed masarn, meddai Bethan. (5)
3. Mae mwy nag un _____ yn eich ceg chi. (4)
4. Rhan o deitl nofel gan Myrddin ap Dafydd – ond heb y treigladd. (6)
5. Mae'n rhoi brawd i ni. (2)
8. Anghenfil plastig yn y môr eleni. (6)
9. Mae pedair o'r rhain ar eich car. (5)
10. Mynd yn fwy. (4)
13. _____ a gwraig – maen nhw wedi priodi. (3)
16. Dw i'n anfon llythyr _____ rywun. (2)

Geiriau

môr-leidr – pirate
 trysor – treasure
 telyn – harp
 masarn – maple

Mae'r atebion ar y gwaelod.

Idiom lingo newydd

efo Mumph


Taten sy fel y diafol?
 Na, ddim yn hollol.

Ond dydy pawb ddim yn berffaith. Mae rhywun drwg ym mhob grŵp o bobl. Felly, mae taten ddrwg ym mhob sach.

Geiriau

taten – a potato
 sy fel y diafol – that is like the devil
 ddim yn hollol – not exactly
 yn berffaith – perfect
 ym mhob – in every
 rhywun – someone
 sach – sack

Mae taten ddrwg ym mhob sach.



Ar Drows: 1. Cist; 3. Dacw; 6. Wedyn; 7. Sw; 8. Croen; 10. Tanc; 11. Tarw; 12. Efrog; 14. Te; 15. Na; 17. To; 18. Môr; 8. Cragen; 9. Olwyn; 10. Tyfu; 13. Gwr; 16. At; I lawr: 1. Canu; 2. Siwgr; 3. Dant; 4. Cansen; 5. Yd;



Theatr
Genedlaethol
Cymru

NYRSYS

Ar daith trwy Gymru
6 Tachwedd – 8 Rhagfyr 2018
Manylion Tocynnau: theatr.cymru/nyrsys

gan Bethan Marlow
Caneuon gan Rhys Taylor a Bethan Marlow
Y syniad gwreiddiol gan
Sara Lloyd a Bethan Marlow



Mynediad i'r di-Gymraeg drwy
gyfrwng ap Sibrwd / English language
access available via the Sibrwd app

#Nyrsys

 @TheatrGenCymru

theatr.cymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Mewn cydweithrediad â Pontio /
In association with Pontio

